HG35. S.103

# ADGOFION

AM Y DIWEDDAR

## PARCHEDIG JOHN JONES,

TALSARN,

SIR GAERNARFON.

*Yr hwn a fu farw, Awst* 16, 1857.

GAN

EDWARD FRANCIS, O'R WERN,

GER WREXHAM.

WREXHAM:
ARGRAFFWYD, GAN R. HUGHES A'I FAB, HEOL ESTYN.

XCG5311007

*Ychydig wythnosau yn ol, fe ymddangosodd y Pennillion canlynol, yn* "BANER CYMRU." *Ar annogaeth amryw gyfeillion a brodyr, wele hwy yn ymddangos eto, yn* Bamphlet *bychan, yn nghydag ychydig o ychwanegiad atynt.*

Y WERN, GER GWRECSAM,
Rhagfyr 12, 1857.

# ADGOFION, &c.,

AR lechres y meirw, ac nid y bywiolion,
Y rhestrwyd un eto o'n hoffaf gyfeillion :
Gŵr mawr a thywysog yn Israel a gwympodd—
JOHN JONES, o LANLLYFNI, Ow! Ow! a'n gadawodd.

Mewn meddwl, ymadrodd, a gras, bu yn enwog,
Galluog ei ysbryd—oedd fawr a thalentog ;
Amneidiai yn wastad, yn ngwedd ei wynebpryd,
Wreiddiolrwydd ei feddwl a choethder ei ysbryd.

Ei Dduw a'i bendithiodd yn hynod arbenig
A thafod hyawdlaidd y doeth a'r dysgedig—
Dirgelwch efengyl ei Arglwydd ddadganai,
Ei thrysor rhadlonaf ar led a wasgarai.

Arweiniai bechadur yn ddoeth a deheuol,
I olwg ei gyflwr colledig andwyol ;
Ac yno fe'i rhwymai, fe'i daliai nes iddo
Ei weled ei hunan ar ddarfod am dano.

Ac yna, dangosai i'r euog ei gyflwr,
Ddrws gobaith yn agor yn angeu'r Cyfryngwr ;
Dyferai fel olew i'r galon bruddglwyfus
Dangnefedd nefolaidd oddi ar ei ber wefus.

58 51

A'i gorff ac â'i enaid y caled lafuriai,
Gwnai aberth o'i holl nerth—ei arbed ni cheisiai,
Wrth gymhell pechadur i dderbyn maddeuant,
Yn angeu Calfaria, ei rinwedd a'i haeddiant.

Fel *udgorn* mawr euraidd, o gywrain gyfanwaith,
(Wrth odrau'r hen Wyddfa y caed y darn campwaith;)
Cryf leisiodd rhwng creigiau danneddog y siroedd—
Trwy'r Deheu a'r Gogledd mil miloedd a'i clywodd.

Cyhoeddai yr udgorn fod rhyddid i'r caethion
O garchar y cadarn, o rwymau y creulon—
A'r drefn i waredu hen blant y farwolaeth,
A'u dwyn yn ol eto i'w hen etifeddiaeth.

Hen noddfa gelwyddog pechadur a chwalai,
O fewn i'w thwyll furiau, ymlechu nis gallai;
I'r noddfa ddiogel o gyrhaedd pob ofni,
Fel *uchel fynegfys* cyfeirai ef iddi.

Yn *'stormydd* ofnadwy o fellt a tharanau,
Uwch ben ei wrandawyr ymdorai ar brydiau;
Ond eilwaith yn nh'w'llwch y 'stormydd aruthrol,
Ymdorai'n *efengyl* o wawr ar y bobl.

Yn ebrwydd tywalltid cawodydd o ddagrau,—
Ymdreiglai'r aberoedd i lawr y gwlyb ruddiau,
Llawenydd a chariad a lament o'r galon,
I wenau pob wyneb, a'r dagrau tryloewon.

Weithiau yn *gorwyntoedd* ofnadwy y rhuthrai—
Y goedwig ysgydwai, y cedrwydd ddadwreiddiai;
Ei gelyd wrandawyr a syrthient o dano,
Pan ddeuai'r gwynt nerthol, i chwythu'n gryf trwyddo.

Ofnadwy 'r *daeargryn* a deimlid ar brydiau,
'N un garnedd gwnai'r caerau, y cestyll, a'r tyrau,—
Yn nghanol 'r adfeiliau, gwneid temlau gorwychach,—
Eu siglo nis dichon daeargryn byth mwyach.

Yn *araf* ond *cryfion*, yn *ddyfnion* a *llydain*,
Ysgogai ei *ddyfroedd grisialaidd* a *gloewon*,
Hyd nes yr ymdorent ar erchyll glogwyni,
Gan ddisgyn i waered yn drystfawr *gryf genlli*.

Rhaiadrau ei ddyfroedd a bensyfrdanent
Y miloedd o ddeutu—mewn syndod a safent!
Eu tawch a esgynai i'r nefoedd yn gwmwl,
Ddisgynai 'n gawodydd ireiddiol a grasol.

Pan *araf* agorai llifddorau 'i *athrylith*,
Gwrthsefyll y dylif nis gallai dim gwrthwaith;
Cynnyddai yn raddol nes myn'd yn rhyferthwy—
Gwel, rywbeth o'i ddeutu yn awr yn ofnadwy!

Fel *comet* anferthol, yn chwyrndroi'n aruthrol,
Rho'dd dro drwy gyfundraeth y nefoedd Grist'nogol;
Ei gwres a'i goleuni a deimlwyd—a welwyd—
Ymdreiglodd—aeth ymaith o'r *system*—fe'i collwyd.

Rhy bell i'r spïeinddrych i'w chanfod hi mwyach,
Mae heddyw mewn *system* sydd uwch ac yn mhellach
Na gwibser y nefoedd, a'r mawrion blanedau,
Yn tanllyd ddysgleirio 'mhlith miloedd fel hithau.

Fel gwron dewrfrydig, gwnai gampus orchestwaith;
Dan faner ei Frenin, gwnai ddewrwych wrolwaith:
Ymladdai, concwerai—y diafol erlidiai,
Y maes yn fuddugol oddi arno gymmerai.

Bydd ol ei fagnelau ar deyrnas y diafol,
Yn Nghymru fynyddig yr oesoedd dyfodol;
Y chwilboeth belenau a losgent, a ddryllient—
Yn nerth eu tanbeidrwydd, ei gestyll a chwalent.

Ein henwog Golumbus, gŵr hyf anturiaethus,
Ar fôr yr efengyl, a'i hwyliog long hwylus;
Yn nghanol yr eigion, canfyddai o'r newydd
Bell diroedd ei Frenin,—meddiannai hwy'n ebrwydd.

Wrth edrych trwy wydrau 'r spïeinddrych meddyliol,
I ddwyfol gyfundraeth y nef ysgrythyrol,
Canfyddai aneirif, wych fodau mawreddol,
Eu cylch a'u tryfesur, ddarluniai'n anfeidrol.

Y gwreiddiol feddyliai oedd yn ei bregethau,
Ei hunan, nid arall—efe oedd a'i piau;
Efe fu'n eu hymddwyn, efe a'u hesgordd—
Ei ddelw oedd arnynt, 'does un gŵr a wadodd.

Elfenau gwir wreiddiol ei enaid talentog,
O'i fewn oeddynt beiriant, ymweithiai'n alluog,
Cerbydres efengyl, trwy'r gwledydd symudai,
Yn llwythog o *safle* Calfaria cychwynai.

Holl fawrwaith gweinidog gyflawnai yn gampus—
I'w feddwl cryf, goleu, 'doedd dim iddo'n rhwystrus;
Mewn ystyr, 'doedd traethu ar ddirgeledigaethau,
I'w fawredd talentog, ond braidd megys chwareu.

Ei daerion weddiau yn nghanol y bregeth,
Ddyg allan och'neidiau y miloedd ar unwaith,
Eu tafod gwefryddol, mewn moment a glywid
Yn nghlustiau trugaredd—mewn eiliad wrandewid.

Pan fynych erfyniai, "*Amen*" ei wrandawyr,
Yr *echo* fel taran a holltai yr awyr;
"*Amen*" yn y galon, "*Amen*" ar y tafod,
"*Amen*" a hir leisid, nid ebrwydd gwnai ddarfod.

Ein Seraph yn orlawn o ysbryd gweddiau,
Yn wresog canmolai, am adsain 'r "*Amenau;*"
Gwir "*iechyd yr enaid*" (ddadganai 'i wefusau),
Oedd gollwng yn ebrwydd, "*Amen*" o'r cadwynau.

Y miloedd a gludai fel pe mewn perlewyg,
I blith rhyfeddodau y byd anweledig;
Nis gwyddent i sicrwydd, (fel rhai fai'n breuddwydio,)
Ai yn y corff 'r oeddent, ai allan o hono.

Er na cha'dd ei ddysgu mewn unrhyw athrofa,
Rhydychain, na'r Bala, na 'chwaith yn Nhrefecca,
Eneiniad yr Ysbryd, a'i ddwyfol ddysgeidiaeth,
Rho'dd ynddo ac arno annhraethol ragoriaeth.

Pe cawsai ryw deitl uchelradd i'w enw,
Ac uchel ymffrostio yn ynfyd yn hwnw;
Ond heb yr eneiniad a'i ddwyfol ddysgeidiaeth,
Athrylith a thalent—pob peth ai'n ddieffaith.

Wrth weled ein gwron mor gadarn iachusol,
A'i lais megys taran, mor uchel a nerthol,
Hyderem fod hyny yn ernes dda ini,
Y caem ei wasanaeth am lawer o flwyddi.

Ein siomi a gawsom—archollwyd ni'n greulon—
Hen angeu ergydiodd ei saeth at ei galon;
Fe dawodd y tafod, fe oerodd y wefus,
A mwyach ni chlywir ei eiriau gorhoffus.

Pa ham y tarewaist un o'n cadfridogion?
Ai bychan oedd genyt lwyr gwympo'r fath wron?
Ha! elyn creulonaf, ti wnaethost dy waethaf—
Gwae dithau ryw ddiwrnod, dy dynged sydd sicraf.

Dych'mygaf ar brydiau, wrth wrandaw a thewi,
Y clywaf uchelfloedd ei lais yn cryf waeddi;
Ha! f' enaid hiraethus, na chymmer dy siomi,
Ei swynol uchelfloedd sydd wedi dystewi.

Hynodion arbenig ei nodwedd urddasol,
A nerth annibynol, t'wysogaidd ei feddwl,
Argraffwyd yn llechres y byd hanesyddol;
Fe beru heb lygru trwy'r oesoedd dyfodol.

O! 'r *urddas* roed arno, ar ddydd ei gla'digaeth,
SAITH MIL o'i gydwladwyr, ymffurfiai'n orymdaith;
I hebrwng gweddillion ein cyfaill mewn mawrfri,
I orwedd yn ddistaw yn monwent Llanllyfni.

Gorbarchus gerbydau, TRIUGAIN ac uchod,
Mewn galar symudent, yn brudd tua'r beddrod,
Gan ddilyn yn araf, yr elor olwynog,
A'r t'w'sog oedd farw—gŵr mawr a galluog.

Y llygaid treiddiadol, maent yno'n *seliedig*
A'r tafod hyawdlaidd, mae yntau 'n *gloedig*,
Y *gruddiau hardd, rhosaidd,* a lonent y miloedd,
Gwywasant i'r beddrod,—eu tegwch a gollodd.

Ha! garchar y beddrod, er tewdrwch dy gaerau,
Er cryfed â sicred yw bolltau dy ddorau;
Dy gastell gor-oesol, o'i sylfaen a chwelir,
A rhwymau marwolaeth dy gaethion a ddryllir.

Daw allan yn rhyddion, o d'w'llwch dy gelloedd,
Y lluoedd gaethgludaist, garcheraist trwy'r oesoedd,
Yn nifer gwaredol, y lluoedd aneiri',
Bydd *gwron*, ac enwog *dywysog* Llanllyfni,

Wel, gyfaill anwylgu, wrth i ni ymadael,
Caiff hyn o linellau fod it' yn gofadael;
Er colli dy berson o'r bywyd presennol,
Dy goffa pereiddber a bery'n dragwyddol.

---

*Gwrecsam: Argraphwyd, gan R. Hughes & Son.*